# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 19 Chwefror 2003 i'w hateb ar 5 Mawrth 2003

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**
**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau*

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)** Pa gyfarfod y mae'r Gweinidog wedi'i gael â Chyngor Sir Caerdydd i asesu morâl y staff o fewn yr awdurdod. (OAQ22790)

**2. Brian Hancock (Islwyn);** A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad i'r Cynulliad ar y cyllid a ddyrannwyd o dan y Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post ar gyfer Cymru. (OAQ22804)
**TYNNWYD YN ÔL**

**3. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae Partneriaethau Gostwng Troseddu ac Anhrefn yn cael eu hariannu. (OAQ22808)

**4. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddefnyddio cynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer etholiadau Llywodraeth Leol. (OAQ22801)

**5. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu gwerthuso'r strwythurau polisi gwleidyddol newydd mewn llywodraeth leol. (OAQ22822)**TYNNWYD YN ÔL**

**6. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i chyfatebydd yn San Steffan gyda'r bwriad o ddylanwadu ar gynnwys ac amseriad Bil ar Dai mewn Amlbreswyliaeth (HMO). (OAQ22798) **W**

**7. Geraint Davies (Rhondda);** Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog gyda'r sector dai cyn dyrannu cyllideb ei phortffolio ar gyfer 2003-04. (OAQ22802)**TYNNWYD YN ÔL**

**8. Brian Gibbons (Aberafan);** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i hybu adnewyddu stoc dai hyn yng Nghymru. (OAQ22824)

**9. Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fynd i’r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol. (OAQ22816)

**10. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A yw Cyngor Sir Caerdydd wedi gofyn am ganllawiau gan y Gweinidog ynghylch dehongli’r rheolau ynghylch cymwysterau preswylio ymgeiswyr mewn etholiadau cynghorau . (OAQ22799)

**11. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddisodli’r dreth gyngor a chyflwyno treth incwm leol. (OAQ22797)

**12. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffordd y mae cyllid yn cael ei ddyrannu ar gyfer Cartrefi Preswyl Cymunedol. (OAQ22788)**TYNNWYD YN ÔL**

**13. Elin Jones (Ceredigion);** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cael â’r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ynghylch dyrannu arian Amcan 1 ar gyfer cynlluniau i adfywio cymunedau. (OAQ22805)

**14. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd sydd wedi’i wneud gan Bartneriaethau Gostwng Troseddu ac Anhrefn. (OAQ22809)

**15. David Davies (Mynwy);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i roi grantiau i Gynghorau Cymuned er mwyn gwella amwynderau i bobl ifanc. (OAQ22793)

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd*

**1. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddefnyddio’r arian sydd ar gael yn dilyn y penderfyniad i beidio ag ariannu prosiect ULTra Caerdydd bellach. (OAQ22841)

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa gyfarfodydd mae’r Gweinidog wedi eu cael gyda Chyngor Dinas Caerdydd i drafod gwarchod safleoedd tir glas yn y brifddinas. (OAQ22828)

**3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefel y gefnogaeth ariannol sydd ei hangen i gwblhau’r ffordd ddosbarthu amgylchol yng Nghaerdydd. (OAQ22827)

**4. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fesurau diogelwch ffyrdd yng Nghymru. (OAQ22854)

**5. Janet Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru );** Pryd mae’r Gweinidog yn disgwyl i’r set lawn o Ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy a addawyd yn wreiddiol ar gyfer yr haf 2002 ddod gerbron y Cynulliad. (OAQ22845)

**6. Dafydd Wigley (Caernarfon);** Pa ystyriaeth a roddir i newid canllawiau cynllunio fel y gellir

darparu tai i bobl leol mewn ardaloedd gwledig. (OAQ22847)

**7. David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fesurau i helpu i ddiogelu’r amgylchedd adeiledig yng Nghanol De Cymru. (OAQ22825)

**8. Brian Gibbons (Aberafon);** A wnaethpwyd unrhyw asesiad o’r effaith ar yr amgylchedd yng Nghymru o ganlyniad i effaith ty gwydr methan yn gollwng o hen weithfeydd cloddio. (OAQ22831)

**9. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro ynghylch Prosiect Bluestone. (OAQ22848) **TYNNWYD YN ÔL**

**10. Christine Chapman (Cwm Cynon);** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cymryd i wella cysylltiadau i draffig ar y ffyrdd rhwng Caerdydd a Chymoedd y De. (OAQ22838)

**11. Brian Gibbons (Aberafan);** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i fynd i'r afael â lefelau annerbyniol y swn ar draffyrdd yn deillio o ffyrdd a gwblhawyd ar ôl 1988. (OAQ22830)

**12. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd asesiadau o risg llygredd mewn gweithdrefnau cynllunio. (OAQ22843)

**13. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar hynt ymateb y Llywodraeth i'r ymgyrch 'hawl i grwydro'. (OAQ22857)**TYNNWYD YN ÔL**

**14. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar argymhellion y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn ddiweddar ynghylch Trafnidiaeth Awyr yng Nghymru. (OAQ22856)

**15. David Davies (Mynwy);** Sawl cais y mae'r Gweinidog wedi'i dderbyn ers dechrau'r flwyddyn am drwyddedau i gloddio agregau yn Nyffryn Wysg. (OAQ22858)

## *Gofyn i Bwyllgor y Ty*

Ni chyflwynwyd cwestiynau.